

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

#### Newidiadau i'r Gronfa Gymdeithasol Changes to the Social Fund

**Q11 Gwenda Thomas:** Will the First Minister make a statement on any discussions he has had with the UK Government regarding changes to the social fund provided by the Department for Work and Pensions? OAQ1604(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** The social fund is administered by Jobcentre Plus, and the Department for Work and Pensions has the primary responsibility for the work of this organisation in Wales. However, I am in regular contact with DWP on issues of significance on the employment and benefits system, in terms of their impact in Wales.

**C11 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â newidiadau i'r gronfa gymdeithasol a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau? OAQ1604(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Caiff y gronfa gymdeithasol ei gweinyddu gan y Ganolfan Byd Gwaith, a chan yr Adran Gwaith a Phensiynau mae'r prif gyfrifoldeb am waith y sefydliad hwn yng Nghymru. Fodd bynnag, yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar faterion arwyddocaol y system cyflogaeth a buddion, gyda golwg ar eu heffaith ar Gymru.

#### Datblygu Gwasanaethau Swyddfa'r Post Developing Post Office Services

**Q12 Rhodri Glyn Thomas:** What recent discussions has the First Minister had with UK Ministers regarding developing Post Office services? OAQ1569(FM)

**The First Minister:** Within the Assembly Government, the Minister for Social Justice and Regeneration has responsibility for monitoring Post Office matters. Edwina Hart and her departmental officials are involved in ongoing discussions with other Government administrations and Post Office Ltd about the future of the post office network.

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael yn ddiweddar gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â datblygu gwasanaethau Swyddfa'r Post? OAQ1569(FM)

**Y Prif Weinidog:** Gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio mae'r cyfrifoldeb am fonitro materion yn ymwneud â Swyddfa'r Post o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Mae Edwina Hart a'i swyddogion adrannol mewn trafodaethau parhaus gyda gweinyddiaethau Llywodraeth eraill a Swyddfa'r Post Cyf am ddyfodol y rhwydwaith swyddfeydd post.

## **Lleihau Gollyngiadau Carbon yng Nghymru Reducing Carbon Emissions in Wales**

**Q13 Mick Bates:** Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to reduce carbon emissions in Wales? OAQ1609(FM)

**The First Minister:** Addressing greenhouse gas emissions is one of our most important priorities and the environment strategy action plan contains specific actions to address climate change. These build on our existing actions, for example in increasing renewable energy generation.

**C13 Mick Bates:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru? OAQ1609(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae gostwng gollyngiadau nwyon tŷ gwydr yn un o'n blaenoriaethau pwysicaf ac mae cynllun gweithredu strategaeth yr amgylchedd yn cynnwys gweithgareddau penodol i roi sylw i newid yn yr hinsawdd. Mae'r rhain yn ychwanegol at ein gweithgareddau presennol, er enghraifft i gynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

## **Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Strategy for Older People**

**Q14 Lynne Neagle:** Will the First Minister make a statement on the progress of the Welsh Assembly Government's strategy for older people in Wales? OAQ1613(FM)

**The First Minister:** Good progress continues to be made with the implementation of our strategy for older people. A Bill for a commissioner for older people in Wales has completed its passage in the House of Lords and is in the House of Commons awaiting a date for its Second Reading.

**C14 Lynne Neagle:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd strategaeth ar gyfer pobl hŷn Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ1613(FM)

**Y Prif Weinidog:** Parheir i wneud cynnydd da gyda gweithredu ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn. Mae Mesur ar gyfer comisiynydd pobl hŷn yng Nghymru wedi cwblhau'i hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi ac mae yn Nhŷ'r Cyffredin yn aros am ddyddiad ar gyfer ei Ail Ddarlleniad.

## **Ranbarth Gwella Busnes Abertawe Swansea Business Improvement District**

**Q15 Val Lloyd:** Will the First Minister provide an update on the Swansea business improvement district? OAQ1618(FM)

**The First Minister:** Businesses within the Swansea business improvement district area voted in May to proceed with the BID, and it aims to be fully operational from 1 August. Sue Essex, the responsible Minister, will present a full report on this to the Local Government and Public Services Committee in its meeting on 21 June.

**C15 Val Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ranbarth gwella busnes Abertawe? OAQ1618(FM)

**Y Prif Weinidog:** Pleidleisiodd busnesau o fewn rhanbarth gwella busnes Abertawe ym mis Mai i fwrw ymlaen gyda'r rhanbarth gwella busnes, ac mae am geisio bod yn gwbl weithredol o 1 Awst. Bydd Sue Essex, y Gweinidog cyfrifol, yn cyflwyno adroddiad llawn ar hyn i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 21 Mehefin.